# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Clwb Gofal Mes y Dderwen**

**Ysgol Y Dderwen**
**Heol Spurrell**
**Caerfyrddin**
**SA31 1TG**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

09/06/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âClwb Gofal Mes y Dderwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y tu allan i Oriau Ysgol |
| Person Cofrestredig | Dylan Evans |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 80 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Awst 2017 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Good** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Adequate** |
| **Yr Amgylchedd** | **Adequate** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Poor** |

Ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth am raddau.

## Crynodeb

Mae plant yn hapus ac yn cyfathrebu yn hyderus gyda'u cyfoedion a staff gofal. Maent wedi ffurfio perthnasau da ac yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau, lle maent yn dangos sgiliau da o annibyniaeth.

Mae staff gofal yn deall ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau ffyrdd o fyw iach, diogelwch a lles personol y plant. Mae llawer o staff gofal yn garedig ac yn rhyngweithio'n bositif gyda'r plant wrth iddynt sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cwrdd.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod y rhan fwyaf o'r mesuriadau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn darparu ystod dda o adnoddau ar gyfer oedran a datblygiad y plant er mwyn datblygu sgiliau plant yn bellach.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod rhan fwyaf o rheoliadau yn cael eu cwrdd ac mae ganddynt weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae partneriaethau da gyda'r ysgol a'r rhieni. Fodd bynnag, rydym wedi dyroddi dau faes i'w wella ac un hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ynghyd â saith o argymhellion.

## Llesiant — Good

Mae plant yn cael cyfleoedd da i wneud rhai dewisiadau, penderfyniadau a mynegi barn. Maent yn cyfathrebu yn hyderus gyda staff gofal a'u cyfoedion, ac mae eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Mae safbwyntiau a diddordebau llawer o blant yn cael eu gwerthfawrogi. Yn y clwb ar ôl ysgol, gwelwyd plant yn symud o un bwrdd i'r nesaf i ddewis gweithgareddau oedd wedi paratoi ar eu cyfer, ond ni welwyd tystiolaeth o drafod cyn gosod gweithgareddau, na'r plant yn cael y cyfle i gynnig syniadau eu hunain. Yn ystod y clwb gwyliau, roedd plant yn trafod a dewis yn ystod y gweithgareddau oedd wedi trefnu o flaen llaw wrth iddynt wneud siocledi ac addurno crysau T.

Mae llawer o blant yn hapus ac wedi ffurfio perthnasau da gyda staff gofal a'u cyfoedion. Maent yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac maent yn amlwg yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae teimladau ac anghenion y plant yn cael eu cydnabod am eu bod wedi meithrin cydberthnasau da yn enwedig yn y clwb ar ôl ysgol.

Mae plant yn rhyngweithio yn agored ac yn hyderus, ac yn cydweithio a chymdeithasu mewn modd hawddgar. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall sut i gymryd tro, aros a rhannu. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a llawer o staff gofal yn dangos bod plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da, ac yn cydweithio ac ymateb mewn modd gyfforddus a chartrefol. Enghraifft o hyn yw pan oedd plant yn ymwneud â gweithgaredd gwnïo ac yn cymdeithasu, holi, gofyn am gefnogaeth a chynnig sylwadau a chanmoliaeth.

Mae llawer o blant yn egnïol a chwilfrydig ac yn dangos diddordeb pan yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn enwedig yn y clwb ar ôl ysgol. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd dan do ac yn yr awyr agored, a fe welwyd rhai enghreifftiau o blant yn cael y rhyddid i ddewis gweithgareddau a symud o amgylch y lleoliad, tu fewn a thu allan gan fwynhau gemau, gwnïo, lliwio, toes a ffrâm y jyngl.

Mae llawer o blant yn cael cyfleoedd da a chyson ar gyfer eu hoedran a datblygiad sy'n hyrwyddo sgiliau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Fe welwyd plant yn annibynnol wrth iddynt ddefnyddio'r tŷ bach. Fodd bynnag, ni welwyd tystiolaeth bod dymuniadau a syniadau'r plant yn rhan o waith cynllunio a threfn y clwb gofal. Mae'r Gymraeg yn gryf yn y gwasanaeth gyda'r plant i gyd yn cymdeithasu, mynegi barn, chwarae a datrys yn y Gymraeg.

## Gofal a Datblygiad **Adequate**

Mae llawer o staff gofal yn brofiadol, gyda nifer wedi cwblhau tystysgrif gwaith chwarae, ac yn deall gweithdrefnau'r clwb er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Mae staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant ac mae llawer yn hyderus gyda pholisi a gweithdrefnau diogelu y gwasanaeth ac yn deall system MyConcern. Gwelsom staff gofal yn cynnig dewis amrywiol o fwydydd iach ar gyfer snac prynhawn a dywedodd plant eu bod yn mwynhau dechrau'r sesiwn gyda'r holl ddewisiadau fwyd. Fodd bynnag, yn ystod y clwb gwyliau, nid oedd y bocsys bwyd yn cael eu storio mewn lle addas, yn enwedig y rhai â bwydydd oer. Mae'r rhan fwyaf o staff gofal yn gweithredu arferion glanhau clir ac arferion hylendid da. Mae gan rai tystysgrifau cymorth cyntaf yn y gweithle a chadarnhaodd y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth bod holl staff gofal y clwb wedi cwblhau cymorth cyntaf pediatreg yn syth yn dilyn yr ymweliad arolwg. Mae llawer o staff gofal yn deall sut i nodi risgiau ac yn mynd ati i reoli risgiau yn rheolaidd. Maent yn cadw cymarebau staff i blant yn gywir.

Mae mwyafrif o staff gofal yn ymateb yn gyson ac yn rhyngweithio yn dda rhwng ei gilydd a gyda phlant y gwasanaeth drwy ddangos diddordeb, cefnogaeth a charedigrwydd. Mae gan staff gofal dealltwriaeth da iawn o faterion dyddiol yr ysgol ac yn ymwybodol a sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant wrth iddynt gyrraedd y clwb, ac yn gadael iddynt gael lle ac amser i ymlacio.

Mae llawer o staff gofal yn cynnig gweithgareddau chwarae a dysgu sydd yn addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant, ac yn cynllunio yn ôl rhai diddordebau. Gwelwyd esiampl da o weithgaredd effeithiol, lle roedd staff gofal wedi trafod dinosoriaid, lliwiau, rhifau a gwyddoniaeth, a cheisio datrys sut i greu siocled gwyrdd. Fodd bynnag, ni welwyd tystiolaeth bod staff gofal yn cynnwys syniadau'r plant yn y broses cynllunio.

## Yr Amgylchedd **Adequate**

Mae'r safle yn eang ac yn cynnig amgylchedd sydd yn lân ac yn groesawgar. Mae'r ardaloedd tu fewn a thu allan, sydd ar gael i'r plant, yn cynnig diogelwch, lle maent yn cael y rhyddid i symud yn annibynnol. Roedd plant yn gofyn i chwarae yn yr ardaloedd tu allan oherwydd eu bod yn mwynhau'r her a'r antur. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod asesiadau risg boddhaol yn cael eu cwblhau yn ddyddiol yn ogystal ag asesiadau risg cyffredinol ar gyfer yr adeilad, ardaloedd allanol, peryglon tân, ymweliadau a darpariaeth ddringo penodol, ac maent yn cael eu hymarfer a'u hadolygu yn rheolaidd. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel, er enghraifft trwy brofion blynyddol ar y gwres, trydan a darpariaeth diogelu tân. Ni welwyd tystiolaeth driliau tân y clwb gofal, ond yn dilyn ein hymweliad, derbyniwyd tystiolaeth bod driliau tân rheolaidd yn cymryd lle.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y safle mewnol a'r ardal allanol yn addas, yn gyfeillgar i blant ac yn hyrwyddo annibyniaeth wrth i rhai adnoddau fod ar gael iddynt. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant ac yn galluogi nifer ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial. Fodd bynnag, nid oedd plant yn cael mynediad rhydd i'r stafelloedd storio, er mwyn dewis gweithgareddau eu hunain. Ceir ynma ggin a swyddfa i gadw gwaith papur y gwasanaeth yn gyfrinachol ac i gynnal trafodaethau cyfrinachol gyda rhieni ac ymwelwyr.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn darparu rhai adnoddau er mwyn ennyn diddordeb a chwilfrydedd y plant ac mae rhain yn cael eu gosod allan mewn modd sydd yn caniatáu i bob plentyn eu gweld a'u cyffwrdd. Mae'r adnoddau a'r darpariaeth yn cynnig cyfleoedd i blant i ddatblygu sgiliau creadigol pellach. Fodd bynnag, gwelsom ddibyniaeth ar ddefnydd y teledu, a'r sgrin mawr ar gyfer ffilm yn atal cyfleoedd pellach i gymdeithasu. Mae'r ardaloedd chwarae awyr agored sydd wrth ochr a thu ôl i'r gwasanaeth yn cynnig darpariaeth eang, naturiol ac o safon sydd yn cynnig cyfleoedd i blant i archwilio mewn modd diogel a rhydd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth  Poor

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth weledigaeth glir ac maent yn gweithio'n galed i gynnig sesiynau cyn ac ar ôl ysgol a gwyliau ysgol. Maent yn cynnig tystiolaeth o rhai elfennau o arfer effeithiol a dywedodd staff gofal eu bod yn derbyn cefnogaeth gan y person â gofal a'r person cofrestredig. Fodd bynnag, ni hysbyswyd AGC o newidiadau staff gan gynnwys y person â gofal newydd, ond yn dilyn yr ymweliad arolwg derbyniwyd hysbysiadau newydd yn nodi'r gwybodaeth cyfredol.  Diweddarwyd y datganiad o ddiben hefyd i ddarlunio sefyllfa cyfredol y gwasanaeth. Ni welwyd tystiolaeth o arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd goruchwylio rheolaidd staff.  Roedd hwn yn  ardal ar gyfer gwella yn yr arolwg diwethaf, rydym felly yn uwch gyfeirio'r mater drwy ddyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o reoliadau perthnasol ac yn cadw trefn ar y rhan fwyaf o gofnodion perthnasol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn sicrhau bod dogfennaeth y gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, nid oes cysondeb rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg a nid yw'r holl ddogfennaeth wedi llofnodi gan y person cofrestredig.

Ni dderbyniwyd adroddiad hunan werthuso y lleoliad a nid oedd tystiolaeth bod y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn casglu adborth oddi wrth rhieni, plant a staff gofal. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae tystiolaeth bod y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth a'r staff gofal yn cydweithio'n hyblyg i sicrhau bod cymarebau staff i blant yn gywir ac mae gan y gwasanaeth gofnodion presenoldeb clir ar gyfer staff a phlant, ynghyd â llyfr ymwelwyr. Fodd bynnag, ni welwyd cynllun gweithredu ac nid oedd bob ffeil staff yn cynnwys cofnod llawn o ddogfennaeth gofynnol y rheoliadau. Yn dilyn ein hymweliad, darparwyd y ddogfennaeth cywir a chafwyd cadarnhad bod bob ffeil staff yn gyflawn. Nid oedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) nifer o staff gofal yn ddilys, ond yn dilyn ein hymweliad, cadarnhaodd y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth bod bob aelod staff wedi diweddaru eu GDG.

Mae tystiolaeth bod yna berthynas gweithio agos rhwng y gwasanaeth a'r ysgol. Dywedodd rhieni eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a bod eu plant yn mwynhau mynychu'r clwb.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1 – sicrhau mai enw y person cofrestredig neu'r person a chyfrifoldeb yn unig sydd yn ymddangos ar ddogfennaeth y gwasanaeth yn ogystal a cofnodion y plant â'r staff;
R2 – sicrhau bod tystiolaeth o gynllunio yn dangos syniadau'r plant;
R3 – sicrhau bod cynllun gweithredu yn nodi sut mae'r clwb gofal yn cael ei rhedeg;
R4 – sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn gyson ar gyfer y Gymraeg â'r Saesneg ac yn berthnasol ar gyfer y clwb.
R5 – sicrhau bod y broses hunan arfarnu yn cael ei gwblhau i ddangos tystiolaeth o welliant blynyddol;
R6 – sicrhau bod tystysgrif GDG y person cofrestredig ar gael i weld ar gyfer yr arolwg nesaf;
R7 – sicrhau bod bocsys bwyd y clwb gwyliau yn cael eu storio mewn lle addas, yn enwedig os oes bwydydd oer.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Staff do not receive regular appraisals and supervision. | Heb ei gyflawni |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | The registered person had not collected the views of children, parents or staff or monitored or reviewed to improve the service or create a quality of care report. Ensure that there is a system in place to review and report on the quality of care annually. | Newydd |
| 17 | The registered person did not complete the Self Assessment Service Statement (SASS) as requested by Welsh Ministers during July 2021. Ensure it is submitted when requested in future. | Newydd |
| 20 | The registered person, although on the DBS update service, was unable to show us his DBS certificate. | Wedi ei gyflawni |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/09/2022